Adroddiad atodol: Penodi aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Cefndir

01. Ddydd Llun 17 Gorffennaf, gosodd y Pwyllgor Cyllid yr adroddiad, Penodi Cadeirydd ac Aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Yn yr adroddiad, nodwyd bod y Pwyllgorau Cyllid wedi cytuno i benodi tri ymgeisydd (gan gynnwys un Aelod anweithredol presennol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd).

Yr Aelodau Anweithredol

02. Roedd y ddau Aelod anweithredol newydd i'w penodi fis Hydref 2017, pan fyddai'r cyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dod i ben ac y byddai dau Aelod anweithredol yn rhoi'r gorau i'w swyddi. Fodd bynnag, ers cyhoeddi adroddiad cychwynnol y Pwyllgor, roedd un Aelod anweithredol eisoes wedi ymddiswyddo.

03. Gan y bydd hyn yn golygu mai dim ond pedwar aelod fyddai ar y Bwrdd yn ystod y cyfnod hyd at fis Hydref 2017, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno y dylid rhoi cyfle i un o'r ymgeiswyr a benodwyd ddechrau ar ei swydd yn gynharach.

04. Ni fydd hyn yn newid dyddiad gorffen cyffredinol y contract cychwynnol ar gyfer yr unigolyn dan sylw, gan mai penodiad o ychydig llai na thair blynedd a naw mis a gynigiwyd iddi, bydd y dyddiad cychwyn cynnar hwn yn parhau i ddod o dan y penodiad pedair blynedd posibl a ganiateir gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

05. Pe bai unrhyw beth arall yn digwydd a fyddai'n golygu bod angen penodi'r ymgeisydd llwyddiannus arall yn gynharach, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno y dylid caniatáu hynny er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar allu'r Bwrdd i ymgymryd â'i waith.

Argymhelliad: Argymhellir bod Alison Gerrard yn cael ei phenodi i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a hynny ar unwaith (yn amodol ar wiriadau cyn cyflogi boddhaol).